YSGOL BRYNREFAIL

CWMNI THEATR CATSPAW

Ar ddiwedd yr hanner tymor, a thrwy drefniant Cyd-lunydd Bagloriaeth dan 16, Mrs Gwenno Evans, cafwyd cyflwyniad cyfoes gan Theatr Catspaw.
Sefydliwyd y cwmni yn 1996 gyda'r amcan o amlygu materion yn gysylltiedig a camdriniaeth o fewn yr aelwyd.
O'r holl ddigwyddiadau trais a/neu ymosodiadau rhywiol sydd wedi'u hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer sylweddol o'r achosion yn gysylltiedig a phobl ifanc rhwng 13 a 16 oed.

Mae'r cynhyrchiad yn canolbwyntio ar sefyllfa gyda merch 15 oed a'i chariad 18 oed a beth sydd yn digwydd dros noson. Mae'r ferch yn dweud na roddodd ei chaniatad iddynt gael rhyw, ond mae'r cariad yn dweud ei bod hi. Mae'r gynulleidfa yn gweld yr olygfa o safbwynt y ferch a'r bachgen.
Cafodd y disgyblion y cyfle i drafod beth ddigwyddodd ac i ymddwyn fel rheithgor anffurfiol i benderfynu ar y gwir. Ar hyd y ffordd mae realiti'r gyfraith a'r goblygiadau i'r rhai sydd yn rhan o hyn yn cael ei drafod a'i archwilio mewn manylder.